EGLWYS EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD

## EBRILL 2025

## GAIR GAN Y GWEINIDOG : Safwch yn Gadarn!



**Aragorn** : *llun gan Kip Rasmussen*

### Nehemeia 4: 19 - 23

19 Yna dyma fi'n dweud wrth yr
arweinwyr, y swyddogion a
gweddill y bobl, "Mae gynnon ni
lot o waith caled i'w wneud, a
dŷn ni'n bell oddi wrth ein gilydd
ar y wal. 20 Pan fyddwch chi'n
clywed y corn hwrdd yn cael ei
ganu, dylai pawb gasglu at eu
gilydd yno. Bydd ein Duw yn
ymladd droson ni!"
21 Felly dyma ni'n bwrw ymlaen
gyda'r gwaith o fore gwyn tan nos,
gyda'r hanner ohonon ni'n cario
gwaywffyn. 22 Peth arall ddwedais
i bryd hynny oedd, "Dylai pawb
aros dros nos yn Jerwsalem
(y gweithwyr a'r rhai sy'n
eu hamddiffyn). Byddan nhw'n
gwarchod y ddinas dros nos, ac yn
gweithio yn ystod dydd."
23 Roedden ni i gyd yn cysgu yn
ein dillad gwaith – fi a'm gweision,
y gweithwyr a'r gwylwyr oedd gyda
ni. Ac roedd pawb yn cario arf yn
ei law bob amser.

### Ystadegau

Yn rhy aml y dyddiau hyn byddaf yn cael fy hun mewn cyfarfodydd lle bydd pobl yn rhannu ystadegau am achosion yn dirwyn i ben ac adeiladau'n cau. Er mor bwysig yw peidio anwybyddu'r hyn sy'n digwydd, rhaid peidio gadael i ystadegau lywio gormod ar ein hymateb oherwydd gall hynny arwain at gadw at gynlluniau

ceidwadol, saff neu hyd yn oed peidio â chynllunio o gwbl. Diolch byth, byddaf hefyd yn clywed llawer o straeon gobeithiol o bob rhan o Gymru yn y cyfarfodydd yma am eglwysi'n mentro'n feiddgar ar gynlluniau newydd cyffrous.

**'Blocbuster'**

Mae Llyfr Nehemeia yn darllen fel nofel epig a hawdd y gallech ei droi'n flocbuster o ffilm dda. Mae'r prif gymeriad yn adrodd yr hanes am gasglu adnoddau adeiladu a dychwelyd i Jerwsalem, dinas sydd wedi'i dryllio, eu muriau'n fylchog ac yn mudlosgi. Bwriad Nehemeia dan arweiniad Duw ydy ailadeiladu'r ddinas, tasg sydd hyd yn oed yn fwy anodd gyda'r gelyn yn ymosod a rhai o'u pobl eu hunain yn eu gwawdio. Ond yr hyn sydd angen ei daclo gyntaf ydy digalondid a diffyg hyder ei griw ei hun. Er gwaethaf pob anhawster ac erledigaeth, mae Nehemeia'n grediniol bod yr anorchfygol Dduw o'u plaid, ac yn deall hefyd y grym ddaw o griw sy'n rhannu'r un dyheadau yn cydweithio'n glos. Ond mae e'n deall rhywbeth arall, rhywbeth sy'n bwysig i ni ei ddeall hefyd – dim ond gweithredu dychmygus a beiddgar wnaiff y tro ar yr unfed awr ar ddeg.

**Dameg**

O'r holl ffilmiau dwi wedi eu gwylio, mae'r drioleg Lord of the Rings *(sy'n seiliedig ar glasuron JRR Tolkien)*, yn rhai o'r ychydig sy'n aros yn y cof. Ysgrifennodd Tolkein y campweithiau yma rhwng 1935 a 1949 a'u cyhoeddi yn 1954. Uwch naratif y nofelau ydy'r frwydr oesol rhwng drygioni a daioni ac er mai cwbl ffuglenol ydy'r stori a chwbl chwedlonol ydy'r cymeriadau mae'r naratif am bobl yn cynghreirio i oresgyn unben ciaidd yn drwm dan ddylanwad profiadau ac erchyllterau'r Rhyfel. Does dim modd osgoi'r ddameg yn y stori, dameg sy'n siarad gyda ni fel unigolion ac fel eglwysi heddiw. Mae 'na amser yn dod pan mae'n rhaid anwybyddu'r anawsterau a mynd amdani, gan wneud y gorau y gallwn ni ei wneud, yn lle oedi a digalonni a gwneud esgusodion, a meddwl cymaint gwell fyddai hi arnom gyda mwy o bobl. Mae 'na ddigonedd o ystadegau i'n digalonni am ddyfodol ein heglwys a'r eglwysi Cristnogol yma yng Nghymru ac mae eu hastudio yn ffordd i ni wynebu'n onest pethau fel y maent. Ond wedyn mae 'na demtasiwn i ddigalonni a gwneud dim ond nid heddiw yw'r dydd i hynny. I'r rhai ohonom sydd hefyd yn poeni am ddigwyddiadau erchyll yn ein byd heddiw sy'n bygwth dyfodol gwareiddiad yr un ydy'r neges - rhaid peidio digalonni. Er y

demtasiwn i deimlo'n fach ac yn ddi-rym yn erbyn drygioni mor bwerus, nid heddiw yw'r dydd i ddigalonni - mae angen i ni afael yn yr heddiw sydd ohoni a dal ati i weddïo a gweithredu o blaid y goleuni.

## I'r Gad !

Tua diwedd stori epig **Lord of the Rings**, mae criw o farchogion ar fin mynd i'r frwydr fawr olaf yn erbyn y gelyn sy'n edrych yn amhosib i'w hennill. Mae na gymorth ar y ffordd ond rhaid cychwyn hebddo. Ac ar y funud dyngedfennol hon, mae un o areithiau mwyaf cofiadwy y ffilm yn cael ei thraddodi gan eu harweinydd, **Aragorn**, sy'n cario neges y tu hwnt i'r ffilm ei hun.

"Daliwch eich tir! Daliwch eich tir!
Meibion Gondor, Meibion Rohan, fy mrodyr.
Gwelaf yn eich llygaid y fath ofn
a allai ddwyn fy nghalon o'm bron.
Efallai y daw dydd y bydd
dewrder dynion yn pallu,
pan fyddwn yn gadael ein ffrindiau
ac yn torri pob cwlwm cymdeithas
Ond nid heddiw yw'r dydd hwnnw.
Efallai y daw awr y bleiddiaid
a'r tariannau teilchion
pan fydd Oes Dynoliaeth yn dymchwel
ond nid heddiw yw'r dydd hwnnw.
heddiw daeth y dydd i ymladd.
Dros bopeth sy'n annwyl ac o werth i chi
ar y ddaear dda hon.
Safwch yn gadarn, ddynion y Gorllewin!"



# Y Ci (a fi)

( sef molawd i'r ci mewn chwe phennill ar hugain gan Dogfael o Fôn* )

***Dywedodd y sgolor mawr o fri*****
***"peth hynod odiaeth ydy ci!"***
***a'i ganmol wna mewn geiriau coeth***
***"O bob creadur, hwn sy' ddoeth"***

***I mi, un llawn cyneddfau croes,***
***yw'r cr'adur hwn ar bedwar coes,***
***un cyfrwys, er mor annwyl yw***
***â chanddo strategaethau byw.***

***Mae'n drist wrth erfyn am ei fwyd,***
***yn medru troi ei wedd yn llwyd***
***ond wedi bwyta, gwir bob gair***
***gwnaiff campau gwirion yn y gwair.***

***Eistedda'n ufudd, chwarae teg,***
***i dderbyn asgwrn mawr i'w geg***
***ond pan ddaw'n amser mynd i'r car***
***rhaid fydd ymaflyd yn ei war.***

***Mae'n rhedwr - ac yn gysgwr da,***
***mae'n llawn anwyldeb – ac yn bla,***
***'rôl mynd i'r Capel fel rhyw sant***
***mae'r mwrddrwg bach yn rhedeg bant.***

***Ond diolch, Arglwydd, am fy nghi***
***sy'n debyg, debyg iawn i fi***
***yn pechu, fel pob un o'i dras,***
***sy angen lot fawr iawn o ras!***

### TROEDNODIADAU

* Priodolir y gerdd hon i Dogfael o Fôn.

Daethpwyd o hyd i'r llawysgrif wedi ei chladdu yn Bryn Celli Ddu gan archeolegydd oedd yn mynd â'i gi am dro. Yn anffodus, o'r chwech ar hugain pennill gwreiddiol, dim ond y 6 yma oedd yn weddill, heb gael eu cnoi.

** Ysgolor mawr o fri' oedd Thomas Charles o'r Bala. Mae yn ei Eiriadur enwog gyfeiriad a molawd i'r ci.

*** Mae un o'r ddau osodiad uchod yn gelwyddog a'r llall yn gwbl wir!



Mali gyda Bernard ei chyfaill yn y gwasanaeth yn Emaus

Gan fod pythefnos Masnach Deg wedi ei symud i fis Medi, sy'n adeg anghyfleus i ni ym Mangor, mae bod yn rhan o "Big Brew" Transform Trade (Traidcraft) yn rhoi cyfle i ni gyfrannu at waith Transform Trade, dysgu mwy am ei prosiectau, ac i ddathlu Masnach Deg yn gyffredinol.

Thema'r "Big Brew" eleni oedd 'tê'. Bu Transform Trade yn ymgyrchu ers degawdau dros hawliau y gweithwyr sy'n hel pob un deilen yn ein tê, gan dargedi y prif gwmniau mawr i hawlio gwell telerau gwaith achyflogau. Buont hefyd yn helpu gweithwyr mewn gwledydd fel Kenya a Bangladesh, i dyfu tê eu hunain. Dros y blynyddoedd, llwyddodd llawer o'r ffermwyr yma i gynnal eu teuluoedd, a rhoi addysg u'w plant, ond bellach mae hyn yn mynd yn anoddach. Mae pris tê wedi gostwng, ac mae newid hinsawdd yn cael effaith andwyol ar y  cnydau.

Eleni bydd y pres a gesglir yn helpu'r ffermwyr i blannu cnydau ychwanegol. Drwy ddysgu sgiliau newydd, a thyfu gwahanol lysiau a ffrwythau ochr yn ochr a'r tê, gall ffermwyr wella ansawdd eu tir, diogelu rhag effeithiau tywydd eithafol, a chael gwell eu incwm.

Bu'r bore coffi dydd Sadwrn Mawrth 1af yn llwyddiant mawr. Daeth llawer ynghyd i siopa, cymdeithasu ac yn arbennig i fwynhau adloniant arbennig gan Enid Griffiths ar y piano. Cyfrannwyd yn hael, ac fe gasglwyd y swm anrhydeddus o £355.

DIOLCH YN FAWR I BAWB

*Catrin*




Justice matters
Put your faith into action
Can we raise £300?
CARDS
£1.50 each
or 5 cards for
£5.00


Allanfa dân
Fire exit





***Cynhelir y bore coffi a siop Masnach Deg nesaf fore Sadwrn Ebrill 5ed o 10 - 12 o'r gloch. Mae croeso i bawb, ac i ddod a'u ffrindiau.***

# DYDD GWEDDI'R BYD 2025

Cynhaliwyd oedfa Gymraeg ar Ddydd Gweddi'r Byd 2025 yn Emaus bore Dydd Gwener, Mawrth 7fed.  Gan nad oedd oedfa arall wedi ei drefnu eleni, daeth nifer o ferched o eglwysi Saesnig atom, gan ddilyn yr oedfa o'r daflen Saesneg.  'Roedd rhyw 25 ohonom yn bresennol, gan gynnwys dau frawd o Berea Newydd! Cymerwyd rhan gan chwiorydd o eglwysi Emaus, Berea Newydd a'r eglwys Babyddol. Dyma lun ohonynt (heblaw am un) a phawb yn gwisgo ***lei***, sef cadwyn flodau, o gwmpas eu gwddf!



Gan fod y deunydd wedi ei baratoi gan chwiorydd Ynysoedd Cook, roedd blas diwylliant y Môr Tawel ar yr oedfa.  Sylwch ar y model o ganŵ brodorol ar y blaen ynghyd a chregyn a blodau lliwgar.  Clywsom hefyd ychydig o hanes tair merch o'r Ynysoedd.  Roedd hanes Vainiu yn arbennig o ddiddorol i ni'r Cymry wrth iddi rannu ei phrofiad o gael ei chosbi am siarad ei mamiaith, Maori, yn yr ysgol.  Rhannu ei phryder adeg y pandemig COFID-19 ddaru Mii tra 'roedd Dr Dawn yn son am ei gwaith meddygol gyda mamau a phlant.  Mae Ynysoedd Cook yn ymfalchïo mai nhw yw'r unig wlad yn y Môr Tawel lle nad yw mam wedi marw wrth esgor ers 1995.


Cafwyd amser hyfryd a bendithiol gyda'n gilydd yn gweddïo ac addoli. Diolch i bawb gymerodd rhan gyda fi, sef Cynthia, Gwyneth, Liz, Meriel, Glenda a Catrin. Diolch i Enid Griffiths am gyfeilio ac i Menna am baratoi paned ar ddiwedd yr oedfa. Diolch hefyd i bawb ddaeth ynghyd i gefnogi. Casglwyd £235 i'r Is-bwyllgor Cymraeg Dydd Gweddi'r Byd. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith gyda phlant a phobol ifanc yn yr eglwysi a'r wasg Grefyddol Gymreig.
Paratowyd arddangosfa o luniau ar y wal, yn cynnwys darlun arbennig lluniwyd gan fam a merch o'r Ynysoedd Cook a map yn dangos eu lleoliad yng nghanol y Môr Tawel.

***Eleri Lloyd Jones***




## CYLCH DARLLEN EMAUS

Bydd cyfarfod nesaf y cylch
am ddau o'r gloch
ddydd Gwener Ebrill y 4ydd
yn festri Emaus.
Y llyfr a drafodir yw **Dan y Ddaear**
gan **John Alwyn Griffiths.**
***Dowch am sgwrs a phaned***
***a gwrando ar y drafodaeth***
***os nad ydych wedi darllen y llyfr***



# CORNEL POSAU GARETH

**LLONGYFARCHIADAU**

Daeth y newyddion da yr wythnos hon fod Gwyn, mab Gwilym a Helen Owen wedi cael swydd fel prif drwmpedwr cynorthwyol (*Associate Principal Trumpet)* efo cerddorfa'r bbc philharmonic ym Manceinion. Mae'r gerddorfa yn perfformio yn aml yn Neuadd Bridgwater yno.

*Da iawn Gwyn*

## ATEB I BOS MAWRTH 2025

## POS MENNA

***Y llythyren olaf ydy A.***

## BLODAU EMAUS

***Diolch i Helen, Llinos ac Ann am roi blodau yn ystod mis Mawrth.***

**MIS EBRILL**

***6. Ann Roberts***

***13 a 20.Sian Arwel***

***27. Jennifer Thomas***

Diolch

*Meriel a Kath*

***(merielparry@gmail.com)***

## POS EBRILL 2025

**POS Y PASG**

**Cafodd dwsin o blant draean hanner dwsin o wyau Pasg yr un. Sawl wy yw hynny yn gyfangwbl?**




***Bydd yr ateb yn rhifyn Mai.***

## LLONGYFARCHIADAU



**Deryn bach wedi sibrwd yn fy nghlust fod Branwen Jarvis yn dathlu Penblwydd arbennig yn ystod mis Ebrill**

# Drama Mewn Cymeriad, CONGRINERO




Yng nghanol mis Chwefror, euthum i weld y ddrama hynod arbennig Mewn Cymeriad, sef Congrinero, yng Nghapel Berea Newydd.
Roedd yn braf gweld cynifer o'm cyd aelodau yn Eglwys Emaus hefyd yn bresennol yn y gynulleidfa.


Roedd hon yn ddrama ar ffurf monolog am gyfnod penodol ym mywyd y bardd, T. H. Parry Williams, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac roedd yn canolbwyntio ar y gwewyr meddwl oedd ganddo yn sgil ei ddaliadau fel heddychwr a gwrthwynebwr cydwybodol. Roedd y cyfnod hwn yn ei hanes yn gwbl ddieithr i mi a'r hyn oedd yn drawiadol oedd yr aberth fu'n rhaid iddo ef a chynifer yn yr un sefyllfa ar y pryd ei wneud. Yn ddi-os, byddai llawer wedi wynebu eu hesgymuno'n gymdeithasol, colli cyflogaeth a hyd yn oed eu carcharu.

Beth bynnag y bo eich safbwynt, efallai fod gan rai ohonom gyn deidiau a lynai at eu hegwyddorion heddychlon a dyma oedd safbwynt rhai pobl yn ystod y cyfnod hwn. Penderfynodd taid Dylan, sef Arthur Lewis, wneud y safiad hwn ac fe'i carcharwyd am gyfnod o dair blynedd yn Wormwood Scrubs yn Llundain ac yna'n Newcastle. Roedd Arthur Lewis yn hanu o Odre'r Graig, ger Ystalyfera. Wynebai galedi eithafol yn ystod ei garchariad gan gynnwys ei ddinoethi a'i orfodi i edrych ar wisg milwr yn ei gell. Pan gafodd ei ryddhau o'r carchar, roedd ei iechyd yn fregus ac roedd ond yn pwyso 6 stôn. Gan ei fod wedi colli ei swydd am ei safiad, bu'n rhaid iddo fynd i weithio ar fferm deuluol yn Sir Aberteifi am gyfnod, nes iddo sicrhau cyflogaeth yn ôl yn ei ardal enedigol.

Yn sicr, byddai effeithiau hir dymor creithiol ar y dynion ifanc hyn, gan gynnwys y bardd T. H Parry Williams. Gweddïwn am barhad heddwch ac mae ein meddyliau hefyd gyda'r rhai mewn gwledydd sy'n profi argyfyngau o'r fath.

Gweler isod ran o lythyr a anfonwyd gan Arthur Lewis at ei chwaer o garchar Newcastle ar 20fed Mehefin, 1918.

**Carol Wyn Owen**



Incoming letters must not exceed one sheet of ordinary Note paper of 4 pages written in ordinary hand-writing, proper spacing between lines

In replying to this letter, please write on the envelope:—

Number 972 Name Arthur W. Lewis

Newcastle Prison

20 . 6 . 1918.

16/7/18

Dear Sister

I only intend writing you a short letter, to allay the suspense you may be in concerning me, and to inform you that I expect to be

Y diweddar James Nicholas yn egluro yn ei gyfrol o gerddi beth wnaeth ei ysgogi i ysgrifennu'r pennill am Yr Atgyfodiad

## YR ATGYFODIAD

**Seiliedig ar frawddeg a ddarllenais rywle am yr Atgyfodiad**

***'It is the land where the great mists lay, but it is the land whence great rivers flow'.*** (Leslie Weatherhead ? )

Yr Atgyfodiad

Dyma fan lle gorwedd niwloedd trwm
Ar yr ucheldir uwchlaw'r cwm;
Ond yma tardd yr afon fawr:
Ei llif sydd fywyd inni 'nawr.

Nos Iau Cablyd 2000

JAMES NICHOLAS

## YMWELD ÂR UNOL DALEITHIAU

Cafodd criw o ddisgyblion Ysgol Tryfan, gan gynnwys Morgan Tecwyn *(ŵyr Valerie Ellis)* a Ieuan *(ŵyr Gareth Jones)* gyfle arbennig i ymweld ag Unol Daleithiau America yn ystod mis Chwefror. Mae sawl un ohonynt wedi bod yn astudio Hanes America fel rhan o'u gwaith ysgol, felly roedd cael ymweld â lleoliadau enwog yn UDA yn brofiad addysgiadol gwerthfawr.

Er enghraifft, cawsent ddychmygu cyffro'r mewnfudwyr niferus gynt a laniodd ar ***Ellis Island*** ar ddiwedd y G19eg, gan deithio ar gwch i'r ynys ar gyrion Efrog Newydd. Ellis Island oedd gorsaf archwilio mewnfudwyr prysuraf yn UDA ar un adeg, a chyrhaeddodd deuddeg miliwn o fewnfudwyr i'r wlad yn ystod y cyfnod rhwng 1892 ac 1954.

Cawsant ymweld â sawl man eiconig arall yn Efrog Newydd ei hun, gan gynnwys yr Empire State Building sy'n fan gwych i weld goleuadau'r ddinas yn ei holl brysurdeb gyda'r nos. Roedd cofeb Ground Zero i'r rhai fu farw yn nhrychineb 9/11 yn 2001 a holl fwrlwm Times Square hefyd yn rhan o'u profiad o'r 'ddinas sydd byth yn cysgu'.

Ail ran y daith oedd ymweld â Washington DC, gan bicio i ddinas Philadelphia ar y ffordd. Yn y ddinas honno mae carchar hanesyddol Eastern State Penitentiary a fu'n dal tua pedwar cant o garcharorion ar y tro (Al Capone yn eu mysg) o 1829 nes y caewyd ef yn 1971. Roedd gan y carchar yma system o gadw carcharorion ar wahân i'w gilydd fel modd o adsefydlu (rehabilitation), ac mae pensaerniaeth benodol i'r adeilad er mwyn hwyluso'r system honno."

Mewn ardal o Washington o'r enw Bethesda oedd y gwesty ar gyfer ail ran y daith, un crand iawn!

Cafwyd ymweliad â bedd John F Kennedy ym mynwent filwrol Arlington (roedd JFK yn gymwys i'w gladdu yno oherwydd iddo ymladd yn yr Ail Ryfel Byd). Mae safle mwy amlwg wedi ei roddi iddo sy'n gweddu i'w statws Arlywyddol.

Roedd cael cefnogi’r tîm pêl fasged lleol, y Washington Wizards wrth iddynt drechu’r Brooklyn Nets o drwch blewyn yn brofiad Americanaidd cyffrous!"

Er nad oedd golwg o’r arlywydd presennol (yn gam neu'n gymwys) wrth i’r criw deithio heibio'r Ty Gwyn, fe welwyd Emmanuel Macron (arlywydd Ffrainc) yn mynd heibio mewn cerbyd swyddogol - roedd sawl un o arweinwyr y byd yn ymweld â Washington ar y pryd. Cafwyd cip ar Rishi Sunak yn y maes awyr wrth ddychwelyd adref, er nad oedd yn teithio ar yr un awyren.

Daeth pawb adre'n ddiogel, yn ddiolchgar iawn i'r athrawon fu'n rhan o'r daith am yr holl brofiadau bythgofiadwy.








***Morgan, Ieuan a'u cyfeillion o flaen Cofeb Lincoln yn Washington DC***



**_Criw'r daith o flaen The Statue of Liberty yn harbwr Efrog Newydd_**

(Lluniau o dudalen Facebook Ysgol Tryfan)

## OEDFAON A CHYFARFODYDD EBRILL

**Bore Sadwrn, 5 Ebrill, 10am tan 12pm** Bore Coffi Masnach De

**Bore Sul, 6 Ebrill** Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog

**Bore Sul, 13 Ebrill** Oedfa bob oed, Sul y Blodau

**Pnawn Iau, 17 Ebrill, 3pm tan 4pm** Cyfarfod 'paned a sgwrs'

**Bore Sul, 20 Ebrill** ***Sul y Pasg***, oedfa dan arweiniad y gweinidog

**Bore Sul, 27 Ebrill** Trefn yr oedfa i'w chadarnhau



## HEN LENNI

**Fe fuaswn yn ddiolchgar iawn os oes ganddoch hen lenni ffenestr** *(neu ddeunydd tebyg)* **ac yn barod i'w rhoi er mwyn eu defnyddio i wneud bagiau ar gyfer y Banc Bwyd .**

**Mae yna wraig ddawnus sy'n creu bagiau ac mae wedi defnyddio'r stoc o lenni oedd ganddi. Byddai unrhyw ddefnydd go gryf yn dderbyniol dros ben.**

*Diolch,*
*Delyth*



Mae eleni yn flwyddyn arbennig i Gadeirlan Bangor wrth iddi ddathlu 15 canrif ers i Sant Deiniol ei sefydlu yn ôl yn y chweched ganrif OC. Cafodd Deiniol lain o dir i adeiladu mynachlog gan Maelgwn Gwynedd, brenin Gwynedd. Dyna ystyr yr enw Bangor yn yr hen iaith Frythoneg, sef y ffens bleth o gwmpas mynachlog Geltaidd. Yr un ystyr sydd i enw dinas Bangor yng Ngogledd Iwerddon - fe gafodd y fynachlog yno ei sefydlu gan Sant Comgall yn 558 OC.
Er i Deiniol dewis lleoliad disylw, cysgodol ar lan yr afon Adda er mwyn diogelwch, ni arbedwyd ei fynachlog rhag cael ei ddifrodi gan y Llychlynwyr yn 634 a 1073. Nid oes dim ar ôl o'r adeiladau gwreiddiol na sicrwydd mai dyma'r union fan y dewisodd Deiniol. Mae darnau cynharaf o'r adeilad presennol yn dyddio o'r deuddegfed ganrif pan gafwyd arian gan Gruffydd ap Cynan i ailadeiladu. Am fod Gruffydd, ei fab Owain Gwynedd a'i frawd Cadwaladr wedi eu claddu yn y gadeirlan. Adroddodd Gerallt Gymro i Archesgob Caergaint cynnal offeren yn yr adeilad newydd yn 1188.
Yn anffodus fe gafodd y gadeirlan ei ddifrodi unwaith yn rhagor gan fyddin y Brenin John yn 1211 ac wedyn gan Edward 1af yn 1282. Ailadeiladwyd ac ehangwyd yr adeilad yn y canrifoedd a ddilynodd.

Mae seiliau'r tŵr yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg a chyfnod Esgob Skevington (bu farw yn 1533). Ond mae'r rhan fwyaf o'r adeilad presennol yn dyddio i'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Cafodd y tu mewn ei adnewyddu a'i aildrefnu dan oruchwylia eth George Gilbert Scott yn 1868.

Ers sefydlu'r Eglwys yng Nghymru yn 1920 mae nifer o esgobion Bangor wedi eu dewis yn Archesgob Cymru, gan gyn nwys ein hesgob presennol, Andy John. Dim ond un esgob Bangor sydd wedi ei ddewis yn archesgob Caergaint, sef Thomas Herring (1693-1757). Sais oedd hwnnw ac a dreuliodd ond pum mlynedd ym Mangor, o 1738 hyd 1743. Mae Caergaint, wrth gwrs, ychydig yn 'fengach na Bangor.

Mae'n hyfryd ymweld â'r Gadeirlan heddiw a mwynhau'r awyrgylch tawel, myfyrgar allan o fwrlwm y ddinas. Mae'n rhyfeddod meddwl fod addoliad Cristnogol wedi parhau ar y safle hwn am fileniwm a hanner! Mis nesaf dwi'n gobeithio son ychydig am hanes organyddion Cadeirlan Bangor a'r traddodiad cerddorol gwych sy'n perthyn i'r lle.

*Eleri Lloyd Jones*



**CODI ARIAN**
**AR GYFER HOSBIS**
**TY GOBAITH**

Ar Ddydd Sadwrn, Mai 17eg, mae Eleri Williams yn bwriadu abseilio i lawr Twr Marcwis, Llanfairpwll, fel rhan o ymgyrch codi arian i hosbis **Ty Gobaith**, Conwy.

Mae Eleri wedi bod yn gweithio fel gofalwraig yn yr hosbis ers dros ugain mlynedd a bob amser yn barod i helpu'r achos. Os hoffech gefnogi Eleri mae'n bosibl rhoi ar y dudalen **Just Giving** isod :

*https://www.justgiving.com/page/eleri-williams-1*

Neu fe allwch roi arian i Eleri pan welwch hi.

Diolch yn fawr.

# Y GENHADAETH

Yn dilyn diweddariad Menna Machreth am weithgaredd y BMS fis Mawrth, casglwyd y swm anrhydus o £990 at waith y BMS. Yn ystod mis Ebrill, mae'r ffocws ar Cambodia a Libanus.

Mae Cambodia yn wlad ryfeddol o dlws gyda diwylliant, bwyd hyfryd a phobol gwych. Llai na 5% o'r boblogaeth sy'n Grisnogion. Ein gweddi yw bydd rhagor yn dod i ffydd yn dilyn clywed yr efengyl. Yn Libanus, adroddodd Thimer, ein pardner cenhadol ei fod wedi clywed awyrenau uwch ben. Er y bygythiad, mae pardneriaid BMS yn ehangu'r gwaith er mwyn bod yn barod i gynorthwyo rhagor o bobol. Maent angen ein gweddiau yn Libanus.

Diolch o galon am eich cyfraniadau hael arferol yn rhoi Cristnogaeh ar waith.

*Sian Arwel Davies*




*Mae ein diolch yn fawr i Carol a Dylan Owen*
*am ysgogi cyfranwyr*
*a chasglu a chydlynu'r deunydd ar gyfer y rhifyn yma.*

..................

**Ar gyfer rhifyn Mai 2025**
**dylid gyrru'r holl ddeunydd i Gareth Ffowc erbyn 20 fed o Ebrill**

ebost : *ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com* Ffôn : *01248 351243*

gyda copi(cc) i'r Negesydd

ebost : *negesydd@btinternet.com*

# ATGOFION MAUREEN

Ychydig dros flwyddyn yn ôl roeddwn i wedi cyrraedd yr 80 - pedwar ugain mlwydd oed.

Yn sgîl yr ysgytwad yma dyma benderfynu clirio o ddifrif. Dechra efo cylchgronau a phapurau newydd. Trwy gyd-ddigwyddiad ar dop un peil o bapurau roedd yna gopi o'r Faner ac ynddo erthygl yn trafod cynhyrchiad Cwmni Theatr Cymru yn 1979 o'r ddrama 'Esther' gan Saunders Lewis ac erthygl Elan Clos Stephens mor amserol i mi heddiw yn 2025.

Er mai fy llun i oedd ar y poster, criw o actorion *'ensemble'* oedden ni, Glyn Williams, Stuart Jones, Cefin Roberts, John a minnau. Camp David Lyn y cyfarwyddwr oedd i leoli'r ddrama mewn carchar gorthrwm a'r Iddewon yn perfformio darn o hanes y genedl Iddewig. Wedi i'r fenter fynd allan i'r cyhoedd y penderfynodd David newid y cynllun gwreiddiol.

Un noson yn Theatr y Werin Aberystwyth bu bron i mi gael fy nharo gan ddarn o wydr a ddisgynodd oddi ar un o'r lampau goleuo.

Mi ges y darn gwydr yn anrheg gan y criw a'r geiriau yma o'r ddrama wedi'u ysgythru arno;

***"Hen, hen gas***
***Hen, hen, ddial"***

Mae yna ambell i ddyfyniad yn dod yn ôl i'r cof yn amlach y dyddiau yma. Darn o araith fawr Esther yn un ohonynt.

***"Haman yr Agagiad, un drwg wyt ti. Ond mae dy ysfa di heno'n darfod. Mi fentraist dy ddwrn yn erbyn yr Hollalluog, yn erbyn Duw Israel. Mi drefnaist i ddileu'r genedl etholedig, y genedl sy'n rhan o gynllun y greadigaeth. O'r ffynnon fechan mi darddodd afon fawr, ac foddir dithau, ti a'th holl feibion yn y llifeiriant. Gwae di Haman, gwae ti dy eni!"***

Geiriau ysgytwol yn fwy felly yn 2025 nag yr oedda nhw yn 1979.

Weithiau mae yna ran sy'n esgor ar lawer iawn mwy. Marged o'r nofel Enoch Huws gan Daniel Owen oedd y rhan honno i mi.

Dros hanner canrif yn ôl mi ges i yr her o bortreadu'r cymeriad 'draig gorniog' yma. Cymeriad oedd flynyddoedd yn hŷn na fi ar y pryd.

Mi ges i bob help gan yr adran wisgo a'r adran oleuo - siwt o wadin oedd yn symud yn naturiol hefo'r corff, rhyw ddyfais gan y deintydd i roi dros fy nannedd i a cholur a oedd yn debycach i saim gwydd na dim arall a boned i guddio ngwallt.

Nid y fi oedd honna a oedd yn edrych yn ôl ata i o'r drych! Mi es ati wedyn gydag arddeliad. Yn sioc i mi mae'n rhaid cyfaddef, oedd y cymaint o sylw (a'i fwynhau!). Yr hyn a'm synodd i fwyaf oedd y sylw a gafodd y rhan gan bobl ifanc oedd a'u bryd ar fynd i actio. Mi ges i flas mawr ar fod yn wahanol.

Gwaith tîm ydi pob cynhyrchiad. Darn o'r cyfanwaith ydi'r actorion.

Dros y blynyddoedd mae John a minnau wedi gwneud degau o nosweithiau ac wedi mwynhau pob eiliad.

Diolch am yr atgofion.

*Maureen Rhys.*



**HUFEN A MOCH BACH**
Mari Gwilym,
y diweddar Catrin Dafydd
a Maureen Rhys

# CYFEIRIADUR EMAUS

**ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:**
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

**BMS:**
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

**CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**GWEINIDOG:**
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

**MASNACH DEG:**
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

**NEGESYDD – CYSODI:**
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

**NEGESYDD – ROTA GOLYGU:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

**PANED A SGWRS**
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

**ROTA BLODAU**
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

**ROTA'R ORGAN:**
Enid Griffiths
712726

**SWYDDOG DIOGELU:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**TI A FI:**
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

**TRYSORYDD:**
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

**YSGRIFENNYDD ARIANNOL:**
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

**YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:**
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

**YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243